

Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

clerc@cyngor-llangelynnin-council.org.uk

Clerc: Jane Jenkins, 2 Talybont, Dolgellau, Gwynedd, LL40 1UA

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher – 09.04.25 - am 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

Presennol: David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Keith Carroll (KC), Ian Williams (IW), Geraint Micah (GM), Jane Lawrence (JL), Megan Griffiths (MG), Jane Jenkins (JJ) – Clerc.

1. **Ymddiheuriadau:** Jenny Warne.

2. **Croeso'r Cadeirydd:** Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

2.1 **Datgan Diddordeb:** Dim.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **12.03.25** yn gywir.

PENDERFYNWYD: Cynnig: GE Eiliwyd: HD Arwyddwyd: DG.

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol – 23.03.25.**

a) **Diweddariad ar Hysbysiad y Swydd Wag Achlysurol** – Ni alwyd am etholiad felly mae Hysbysiad o Gyfethol wedi eu harddangos ar y byrddau hysbysebion.

b) **Cynnal a Chadw'r Meinciau** – Clerc yn hysbysu bod tri dyfynbris wedi dod i mewn a adolygwyd gan bawb a oedd yn bresennol, ac eithrio Geraint Micah a adawodd yr ystafell gan fod buddiant rhagfarnllyd gan ei fod wedi dyfynnu. Llofnodwyd y gwaith papur priodol. Codwyd pryderon ynghylch cyflwr rhai o'r meinciau a gofynwyd os oedd atgyweiriad yn ddigonol. Dywedodd DG ei fod wedi datgymalu un o'r meinciau ger Llwybr y Crynwyr gan fod y fainc yn anniogel. Darparodd GE fanylion ar gyfer meinciau newydd a/neu bren cyfansawdd i gymryd lle'r rhai oedd wedi torri, ond yn gyffredinol, ystyriwyd y byddai'n fwy cost-effeithiol prynu meinciau newydd.

PENDERFYNWYD: penderfyniad unfrydol oedd i brynu dwy fainc newydd gyda chefn fertigol ar unwaith (meinciau plastig wedi'u ailgylchu) gan Wynnstay am bris o £385 (ynghyd â TAW, y gellid eu hadennill). Meinciau ychwanegol i'w hychwanegu yn ddiweddarach ac yn dibynnu ar y cyllid.

Unrhyw feinciau anniogel i'w datgymalu i atal anaf.

GWEITHRED: Clerc i e-bostio Wynnstay i osod archeb a holi os oedd unrhyw ostyngiad ar gael.

c) **Tyrchod yn y Cae Chwrae** – dywedodd GM nad yw hyn wedi'i wneud gan ei fod yn dal i aros am goraid giat y cae chwrae.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**

a) **E-bost gan Adrian Williams ynglŷn ag A493 Rhoslefain ac arwyddion**
Nodwyd.

6. **Materion Cynllunio:** Dim

7. **Adroddiad Ariannol:**

1. **Adroddiadau Ariannol ar gyfer Mis Mawrth.**

PENDERFYNWYD: Cytunwyd yn unfrydol fod y cyfrif yn gywir ac fe'i gymeradwywyd.

Cynnig: HD Eilio: IW Llofnodwyd: DG.

2. **Taliadau** – Cyflog a chostau'r Clerc - Mis Mawrth, PAYE (talw misoedd 8-12), Un Llais Cymru (Aelodaeth 25/26), Glenda Edwards (Cyfieithu).

PENDERFYNWYD: Cytunwyd yn unfrydol ar y taliadau felly'r sieciau wedi'u llofnodi.

GWEITHRED: Clerc i wneud y taliadau.

3. Dyfynbrisiau wedi'u derbyn ar gyfer torri gwair.

'Roedd dau ddyfynbris bellach wedi'u derbyn. Gadawodd Geraint Micah yr ystafell gan ei fod wedi darparu dyfynbris, ac fe lofnodwyd y ddogfennaeth berthnasol ganddo. Ystyriodd y Cynghorwyr y ddau ddyfynbris a gwneud eu penderfyniad.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i roi'r contract torri'r llwybrau cyhoeddus a'r Cof Golofn i GM am y cyfnod 2025-26. Gwahoddwyd GM yn ôl i'r ystafell a chafodd wybod am y penderfyniad.

GWEITHRED: Clerc i ddiolch i'r contractwr aflwyddiannus am ddarparu dyfynbris.

4. IRPW i fabwysiadu penderfyniad y Cynghorwyr (2024-25).

Esboniodd y Clerc y weithdrefn a'r hawl i hawlio i'r tri Cynghorydd nad oeddent yn bresennol y mis diwethaf.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol gan y Cynghorwyr hynny i beidio â hawlio. Felly dim hawliad i'w adrodd ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 2024-25.

GWEITHRED: Clerc i gwblhau a chyflwyno'r ffurflen.

5. Adolygu'r Polisi Rhoddion

PENDERFYNWYD: Cytunwyd yn unfrydol i fabwysiadu'r polisi fel y drafftwyd. Adolygiad nesaf i fod yn Ebrill 2026.

GWEITHREDU: Clerc i ddiweddarw ar y wefan.

6. Diweddariad Archwilio

Dywedodd y Clerc ei bod wedi ymgysylltu ag Archwilydd Mewnol Cyngor Gwynedd ac ei bod yn y broses o baratoi'r dogfennau yr oeddent wedi gofyn amdanynt. Derbyniwyd dogfennau gan Archwilydd Cymru ac roedd archwiliad sylfaenol i Gyngor Cymuned Llangelynnin eleni. Dywedodd y Clerc fod cyfrifon diwedd y flwyddyn wedi'u cwblhau.

7. Adfer TAW

Dywedodd y Clerc fod ffurflen TAW 126 wedi'i chwblhau a'i chyflwyno ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 31.03.25.

8. Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr: Dim

9. Adroddiad y Cynghorydd Sirol:

Louise Hughes yn hysbysu ei bod wedi mynychu cyfarfod ynghylch y cynnydd yn nhreth y cyngor ac wedi pleidleisio yn ei erbyn. Hefyd yn hysbysu ei bod wedi mynychu Cyfarfod Parc Cenedlaethol a bod cais wedi'i gyflwyno i ddymchwel Neuadd Bontddu gydag ymweliad â'r safle ddydd Mercher 16.04.25.

10. Unrhyw Fater Arall:

1. Pibell Garthffosiaeth, Afon Gwrl. Cynghorodd KC fod llawer iawn o goncrit wedi dod i ffwrdd o'r bibell a'i bod wedi'i chymbwysu'n beryglus. Cynghorodd fod y Clerc wedi ffonio llinell argyfwng Dŵr Cymru ar 3ydd Ebrill a bod arolygydd wedi mynychu'r safle ar 4ydd Ebrill. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes adroddiad wedi'i ddarparu. Nodwyd bod rhywfaint o goncrit yn dal i fod ar un pen o'r bibell a allai, gyda'r pwysau, achosi i'r bibell gracio gan ganiatáu i garthffosiaeth lifo i'r afon. Cytunwyd bod angen cyfathrebu ymhellach â Dŵr Cymru.

PENDERFYNWYD: Cytundeb unfrydol i'r Clerc gysylltu â Dŵr Cymru gan ddarparu'r rhif cyfeirnod a gofyn am ddiweddariad brys. Bydd Louise Hughes hefyd yn cysylltu â'u tîm argyfwng.

GWEITHRED: Clerc i anfon e-bost cyn gynted â phosibl.

2. Diffibrilwyr - Soniodd JL fod sawl pentrefwr wedi holi pryd y byddai'r diffibrilwyr yn cael eu gosod. Adroddodd DG ei fod wedi siarad ag aelod o Wasanaeth Tân Dolgellau ac wedi cael gwybod bod diffibriliwr yn cael ei osod ar y polyn lamp y tu allan i'r parc a bydd yn gyfrifol am ei ariannu a'i gynnal. Nid oedd y Cynghorwyr wedi bod yn ymwybodol o hyn. Bydd DG yn holi gyda phwy y maent wedi siarad i gael caniatâd iddo gael ei roi ar y polyn lamp gan y gallem ni efallai wneud rhywbeth tebyg.

Daeth y cyfarfod i ben am 8.10 yh.

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf (AGM):

Nos Fercher 14.05.25 - am 7 o'r gloch yn y Ganolfan, Llwyngwrl